Cyflwyno trefniadau cofnodi dalfa ar gyfer cychod pysgota trwyddedig o dan 10 metr o hyd



Bydd gofynion ar gyfer cofnodi dalfeydd yn cael eu cyflwyno yng Nghymru drwy amod trwydded cwch pysgota ar 28 Chwefror 2020.

Gwahoddwyd pysgotwyr i gofrestru ar y system o fis Rhagfyr 2019. Nid yw rhai pysgotwyr wedi cofrestru eto a hoffem eu hannog i wneud hynny cyn gynted â phosibl. Gall pysgotwyr nodi eu dewisiadau, gan arbed amser iddynt yn y dyfodol wrth iddynt gofnodi eu dalfa.

Gwnaethom gynnal nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant llwyddiannus ar draws Cymru ym mis Ionawr 2020 a byddwn yn parhau i gynnig cymorth un i un yn swyddfeydd lleol Llywodraeth Cymru drwy apwyntiadau. Dyma'r rhifau ffôn cyswllt:

03000 258923
03000 258907

Yn sgil natur ein gwaith gallai pysgotwyr gael eu trosglwyddo i'n gwasanaeth ateb, ac fe'u hanogir i adael neges a byddwn yn eu ffonio cyn gynted â phosibl.

Mae pysgotwyr wedi mynegi pryderon mewn perthynas â chofnodi dalfa sy'n destun cwota cyn glanio. Yn unol â hyn mae Llywodraeth Cymru wedi estyn yr adrodd ar rywogaethau sy'n destun cwota i 24 awr, sy'n cyfateb i'r drefn ar gyfer rhywogaethau nad oes cwota arnynt.

I'r pysgotwyr hynny a fydd yn ffonio'r ganolfan gyswllt i nodi manylion eu dalfa, bydd staff ar gael i ateb y ffôn rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ar adegau eraill bydd y ganolfan gyswllt yn gweithredu gwasanaeth awtomatig a gall pysgotwyr nodi manylion eu dalfa.

Rhif ffôn y ganolfan gyswllt yw 0300 0203 788 (Ni fydd galwadau i rifau 03 yn costio mwy na chost ar y gyfradd genedlaethol i rifau 01 neu 02 ac mae'n rhaid iddynt gyfrif tuag at unrhyw funudau sy'n cael eu cynnwys yn yr un modd â rhifau 01 ac 02).